


# Dyfarniad Hyfforddwr Perfformiad

## Canllaw Cwrs

# Canllaw Dyfarniad Hyfforddwr Perfformiad BCAB


## Hawlfraint BCAB 2019

Mae hawlfraint y Canllaw Cwrs hwn yn perthyn i Gorff Dyfarnu Canŵio Prydain a Chanŵio Prydain. Cedwir pob hawl. Ni chaniateir ailgynhyrchu'r cyhoeddiad hwn, ei storio ar unrhyw ffurf neu ffordd yn electronig, yn fecanyddol, ar ffurf ffilm neu fel arall heb ganiatâd ymlaen llaw gan berchennog yr hawlfraint. Caiff deunydd sydd wedi'i ddiweddaru a'i uwchraddio ei ddiogelu ar yr un sail.



## Cydnabyddiaeth

Gweithiodd Corff Dyfarnu Canŵio Prydain mewn partneriaeth ag ystod eang o arbenigwyr wrth ddatblygu'r cymhwyster hwn. Roedd y rhain yn cynnwys canolfannau cyflwyno, cyflogwyr, ymgeiswyr presennol a phosib ac arbenigwyr addysgol a chwaraeon padlo.

## Cyhoeddwyd a Dosbarthwyd gan

Gorff Dyfarnu Canŵio Prydain
Canolfan Chwaraeon Dŵr Genedlaethol
Adbolton Lane
Holme Pierrepont
Nottingham NG12 2LU

Ffôn: 0300 0119 500
E-bost: enquiries@britishcanoeingawarding.org.uk
Gwefan: www.britishcanoeingawarding.org.uk

**Cynnwys**


Canllaw Dyfarniad Hyfforddwr Perfformiad BCAB 1

Hawlfraint BCAB 2019 1

Cydnabyddiaeth 1

Cyhoeddwyd a Dosbarthwyd gan 1

Rhagarweiniad 4

Athroniaeth Addysgol Corff Dyfarnu Canŵio Prydain 5

Cymwysterau Hyfforddi ac Arwain y Corff Dyfarnu Canŵio Prydain 6

Y Weledigaeth 7

Nod y Cymhwyster 7

Opsiynau Disgyblaeth 8

Y Daith Ddysgu 9

Cofrestru 10

Hunan-ddadansoddi gan yr Hyfforddwr 11

Sesiynau Mentora Ar-lein 11

Digwyddiadau Cymuned Ddysgu 11

Cefnogaeth Datblygwr Hyfforddwyr 12

Tasg Athroniaeth Hyfforddi 12

Sesiwn Mentora Cyn-asesu 13

Asesu 14

Rhagarweiniad 14

Cofrestru i'r Asesiad 14

Asesiad Hyfforddi Ymarferol 14

Gwybodaeth bellach 15

Ardystio 15

Gorchwyl 16

Manylion Cyswllt 19

Atodiad 1: Cymwysterau Hyfforddi Hanfodol ac APL 20

Cymwysterau Hyfforddi Hanfodol Perthnasol 20

Dysgu Blaenorol wedi'i Achredu 20

Atodiad 2: Amgylcheddau Gweithredu Cymwysterau 21

## Rhagarweiniad

Croeso i Ganllaw Cwrs Hyfforddwr Perfformiad. Mae'r canllaw hwn yn eich cyflwyno i strwythur a chynnwys y cymhwyster.

| Ar y Cwrs |
|---|
| mae ein cymwysterau yn rhoi gwybodaeth ymarferol a'r gallu i gyflwyno sesiynau chwaraeon padlo;<br>Mae gan Gorff Dyfarnu Canŵio Prydain dros 40 mlynedd o brofiad o gynnal cymwysterau hyfforddi;<br>ein bwriad yw eich cefnogi beth bynnag yw eich profiad, eich sgiliau neu'ch anghenion penodol;<br>mae ein cymwysterau wedi cael eu derbyn fel safonau diwydiannol ers dros 35 o flynyddoedd;<br>mae ein cymwysterau wedi'u cynnwys yn y Gofrestr o Gymwysterau Rheoledig;<br>ein bwriad yw darparu cymwysterau addas i'r diben drwy wasanaeth o safon sy'n gost-effeithiol;<br>ni yw'r unig Gorff Dyfarnu sy'n cynnig cymhwyster Hyfforddwr Perfformiad. |

Cawn ein cydnabod a'n rheoleiddio gan y Swyddfa Rheoleiddio Cymwysterau ac Arholiadau (Ofqual), y Cyngor Cwricwlwm, Arholiadau ac Asesu (CCEA), a Chymwysterau Cymru (QiW). Golyga hyn y gallwch fod yn gwbl hyderus o ran cadernid a'r gweithdrefnau sy'n sail i gynllun a darpariaeth y cymhwyster.

Mae cymhwyster Hyfforddwr Perfformiad Corff Dyfarnu Canŵio Prydain ar Gofrestr Ofqual o Gymwysterau Rheoledig ar Lefel 4.

Mae ein datganiad gwasanaethau cwsmeriaid ar gael ar ein gwefan: (www.britishcanoeingawarding.org.uk).

Caiff cyrsiau Hyfforddwr Perfformiad eu cyflwyno trwy 'Ganolfannau Cyflwyno'r Gymdeithas Genedlaethol' sydd wedi'u dilysu'n allanol gan Gorff Dyfarnu Canŵio Prydain. Mae Canolfannau Cyflwyno'r Gymdeithas Genedlaethol yn gyfrifol am werthuso'n fewnol ac am recriwtio darparwyr i gynnal safonau a chysondeb.


Hawlfraint BCAB

**Athroniaeth Addysgol Corff Dyfarnu Canŵio Prydain**

Mae Corff Dyfarnu Canŵio Prydain yn credu mewn ymagwedd a arweinir gan gyfranogwr wrth greu a galluogi profiad y bydd pobl yn ei fwynhau, yn dysgu ohono ac yn datblygu ohono drwy chwaraeon padlo. Mae'r llwybr Hyfforddwr Perfformiad wedi'i gynllunio i gefnogi hyfforddwyr profiadol i ddatblygu a mireinio eu harferion hyfforddi ymhellach, ac wrth wneud hynny gwella eu gallu i ddarparu sesiynau chwaraeon padlo diogel, gafaelgar, grymusol a difyr gyda'r padlwr sydd wrth wraidd y broses; ac ar yr un pryd yn meithrin ymdeimlad o gymuned badlo ac yn cefnogi agweddau cymdeithasol cynhenid y gamp. Drwy'r ymagwedd hon, rydym yn gobeithio y bydd y rhwyfwyr yn llwyddo ac yn dathlu'r llwyddiant hwnnw (a hynny drwy ganolbwyntio ar y daith, ac nid ar ben y daith).

Dylai profiad yr hyfforddwyr drwy'r llwybr cymhwyster hefyd fod yn ddiogel, yn ddeniadol ac yn bleserus; gyda'r hyfforddwr yn llywio eu dysgu a'u datblygiad eu hunain mewn meysydd y maent yn teimlo'n berthnasol ac yn gymwys. Mae'r gymuned o ddatblygwyr hyfforddwyr, hwyluswyr cyrsiau a mentoriaid yn rhan hanfodol o adnoddau'r hyfforddwyr, sydd ar gael i gynnig cefnogaeth, arweiniad a her drwy'r broses.

## Cymwysterau Hyfforddi ac Arwain y Corff Dyfarnu Canŵio Prydain

Rydym yn cynnig ystod eang o gymwysterau sydd wedi'u llunio i gynorthwyo Hyfforddwyr ac Arweinwyr sy'n gweithio gyda phadlwyr ar wahanol lefelau, mewn gwahanol ddisgyblaethau ac y mae ganddynt wahanol ddyheadau.

Mae'r cymhwyster **Hyfforddwr Chwaraeon Padlo** ar gyfer pobl a fydd yn canolbwyntio'n bennaf ar ddarparu sesiynau rhagflas/cychwynnol ar chwaraeon padlo mewn clybiau, canolfannau neu sefydliadau eraill. Nid yw'r cymhwyster hwn ar gyfer unrhyw ddisgyblaeth yn benodol ac mae'n addas ar gyfer hyfforddwr sy'n gweithio gyda rhwyfwyr o unrhyw un o'r disgyblaethau chwaraeon padlo cystadleuol neu heb fod yn gystadleuol.

Mae'r **Dyfarniadau Arwain** yn darparu cymwysterau i badlwyr arwain eraill mewn ystod o ddisgyblaethau ac amodau amgylcheddol.

Mae'r **Dyfarniadau Hyfforddi** wedi'u dylunio ar gyfer pobl sy'n dymuno hyfforddi padlwyr sydd am ennill/datblygu sgiliau chwaraeon padlo mewn disgyblaeth o'u dewis. Gall hyn gynnwys, er enghraifft, ddatblygu sgil technegol/tactegol, datblygu'n gorfforol/seicolegol, neu helpu pobl i ddatblygu'r sgiliau er mwyn gallu padlo'n ddiogel heb fod angen hyfforddwr. Gall yr hyfforddwr gynllunio, datblygu ac adolygu sesiynau dilynol yn ddiogel, yn effeithiol ac yn annibynnol. Mae 22 dewis ar gael sy'n cwmpasu pob un o'n prif ddisgyblaethau ac amgylchiadau. Mae'r cymwysterau hyn wedi'u hardystio ar Lefel 2.

Mae'r **Dyfarniadau Hyfforddwr Perfformiad** wedi'u dylunio i gefnogi datblygiad hyfforddwyr profiadol sydd ag arfer helaeth, gan fireinio eu gallu i ddefnyddio arferion hyfforddi soffistigedig i wella datblygiad tymor hir unigolion fel padlwyr yn effeithiol. Mae 21 o opsiynau disgyblaeth, yn debyg i lwybrau'r Dyfarniad Hyfforddwr. Mae'r cymwysterau hyn wedi'u hardystio ar Lefel 4.

# Dyfarniad Hyfforddwr Perfformiad y Corff Dyfarnu Canŵio Prydain

## Y Weledigaeth

Mae hyfforddi perfformiad yn ymwneud ag ysbrydoli, annog a chefnogi unigolion i wella eu datblygiad tymor hir fel padlwyr. I wneud hyn byddwch yn datblygu arferion hyfforddi unigol soffistigedig iawn, sydd wedi'u hategu gan ddealltwriaeth ddofn o berthnasau rhyngbersonol. Bydd eich dealltwriaeth yn cael ei chefnogi gan fewnwelediadau gwybodus i'r elfennau technegol a thactegol mewn disgyblaeth, gan alluogi datrysiadau dysgwyr unigol.

Fel hyfforddwr angerddol sy'n perfformio'n dda, bydd hunanymwybyddiaeth, hunan-fyfyrio a dadansoddi yn sail i'ch datblygiad personol. Bydd chwilfrydedd yn gyrru'r broses hon, gan ysbrydoli a datblygu dysgu a gwybodaeth gydol oes trwy eich hyfforddi.

## Nod y Cymhwyster

Cynlluniwyd y rhaglen i'ch cefnogi i ddatblygu a mireinio'ch hyfforddiant ymhellach, gan wella'ch gallu i ddefnyddio arferion hyfforddi soffistigedig i wella perfformiad a datblygiad tymor hir y padlwyr rydych chi'n eu hyfforddi.

Fel hyfforddwr profiadol, sydd ag arfer helaeth, bydd gennych eisoes sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth (a ddilyswyd) yn eich disgyblaeth(au)/amgylchedd(au) o'ch dewis, a bydd eich anghenion dysgu a datblygu penodol yn unigryw ac yn eang. O ystyried y sylfaen sgiliau a phrofiad bresennol hon, mae'n bwysig eich bod yn llywio cyfeiriad a ffocws eich dysgu yn y meysydd sydd fwyaf perthnasol i chi. Swyddogaeth graidd y rhaglen yw darparu cefnogaeth ac arweiniad fel y gallwch wneud y mwyaf o'ch dysgu trwy heriau priodol a chyfleoedd perthnasol.

Mae hon yn rhaglen ddelfrydol ar gyfer hyfforddwyr profiadol sy'n cael eu gyrru'n gynhenid ac sydd eisiau gwella ar hyfforddi'r padlwyr y maen nhw'n gweithio gyda nhw, ac ar gyfer y rhai sy'n ceisio cydnabyddiaeth y maent yn darparu hyfforddiant sy'n bodloni lefelau soffistigedigrwydd uwch.


Hawlfraint BCAB

**Opsiynau Disgyblaeth**

Mae’r opsiynau cymhwyster (a gorchwylion) yn cyd-fynd â chymwysterau’r Dyfarniad Hyfforddi.

Mae 21 o lwybrau (wedi'u hardystio ar Lefel 4) ar gael:


- Hyfforddwr Perfformiad Canŵ (Dŵr Cysgodol)
- Hyfforddwr Perfformiad Caiac (Dŵr Cysgodol)
- Hyfforddwr Perfformiad Dull Rhydd
- Hyfforddwr Perfformiad Canŵ Dŵr Agored
- Hyfforddwr Perfformiad Canŵ Dŵr Agored (Dŵr Uwch)
- Hyfforddwr Perfformiad Polo
- Hyfforddwr Perfformiad Rasio (Dŵr Cysgodol)
- Hyfforddwr Perfformiad Rasio (Dŵr Cymedrol)
- Hyfforddwr Perfformiad Caiac Môr
- Hyfforddwr Perfformiad Caiac Môr (Dŵr Uwch)
- Hyfforddwr Perfformiad Slalom
- Hyfforddwr Perfformiad Caiac Beiston
- Hyfforddwr Perfformiad Caiac Beiston (Dŵr Uwch)
- Hyfforddwr Perfformiad Padlfwrdd Sefyll (Dŵr Agored)
- Hyfforddwr Perfformiad Padlfwrdd Sefyll (Dŵr Cysgodol)
- Hyfforddwr Perfformiad Padlfwrdd Sefyll (Dŵr Gwyn)
- Hyfforddwr Perfformiad Padlfwrdd Sefyll (Rasio)
- Hyfforddwr Perfformiad Canŵ Dŵr Gwyn
- Hyfforddwr Perfformiad Canŵ Dŵr Gwyn (Dŵr Uwch)
- Hyfforddwr Perfformiad Caiac Dŵr Gwyn
- Hyfforddwr Perfformiad Caiac Dŵr Gwyn (Dŵr Uwch)
- Hyfforddwr Perfformiad Rasio Dŵr Gwyllt

Sylwch, y bydd gofyn i chi gymryd rhan yn y cwrs a phopeth sydd ei angen arno trwy gyfrwng yr iaith Saesneg (oni bai bod y cwrs yn cael ei hysbysebu/cyflwyno trwy'r Gymraeg).

## Y Daith Ddysgu

Mae'r daith ddysgu yn gyfnewidiol ac wedi'i phersonoli i bob hyfforddwr sy'n ymgymryd â'r rhaglen. Mae cydrannau allweddol y dyfarniad yr un peth ond, fel hyfforddwr profiadol, byddwch yn llywio cyfeiriad a ffocws eich dysgu yn y meysydd sydd fwyaf perthnasol i chi. Gellir personoli'r siwrnai ar bob cam, trwy ddeall y galluoedd a'r sgiliau rydych chi'n cyrraedd gyda nhw, rydych chi'n penderfynu ar y sgiliau, y wybodaeth a'r profiad rydych chi eisiau eu dysgu a'u datblygu.

Mae’r diagram canlynol yn dangos gwahanol elfennau’r llwybr Hyfforddwr Perfformiad:




## Gwiriwch ei fod ar eich cyfer chi

Os oes gennych ddiddordeb yn y rhaglen mae angen i chi gysylltu â'ch Cymdeithas Genedlaethol i drefnu cyfarfod ar-lein cychwynnol. Bydd hyn yn eich helpu i asesu addasrwydd y rhaglen ar gyfer eich anghenion dysgu penodol ac yn caniatáu i chi wirio y bydd yn darparu'r cyfleoedd dysgu rydych chi'n eu ceisio. Bydd cyfle i archwilio'ch disgwyliadau a gofyn cwestiynau cyn cofrestru.

O ystyried bod y cymhwyster wedi'i gynllunio i ddatblygu a mireinio sgiliau presennol, mae'n bwysig bod gennych sylfaen o brofiad a'ch bod ar hyn o bryd yn hyfforddi (ac


Hawlfraint BCAB

yn gymwysedig) yn y ddisgyblaeth/amgylchedd sy'n berthnasol i'r llwybr rydych am ei ddilyn. Gweler Atodiad 1 am fanylion cymwysterau addas ac am wybodaeth am Achredu i Ddysgu Blaenorol (APL). Yn ystod y sgwrs, bydd eich Cymdeithas Genedlaethol yn gallu cynnig cefnogaeth, arweiniad a gwneud argymhellion i helpu i sicrhau bod gennych yr hanfodion ar waith ac i'ch helpu i symud ymlaen yn briodol.

**Cofrestru**

Ar ôl eich cyfarfod ar-lein cychwynnol gallwch gofrestru gyda'ch Cymdeithas Genedlaethol os ydych am ddechrau'r rhaglen.

Rhagofynion cofrestru:

- Cymhwyster hyfforddi perthnasol neu APL (gweler Atodiad 1);
- Aelodaeth lawn o'r Gymdeithas Genedlaethol;
- Hyfforddiant Cymorth Cyntaf cyfredol;
- Hyfforddiant diogelu (fel sy'n ofynnol gan eich Cymdeithas Genedlaethol).

Mae cofrestru'n cynnwys y cydrannau canlynol:

- Dwy sesiwn mentora ar-lein;
- Sesiwn mentora Cyn-asesu (cyflwyniad).


Hawlfraint BCAB

**Hunan-ddadansoddi gan yr Hyfforddwr**

Bydd yr offeryn hunan-ddadansoddi gan yr hyfforddwr Corff Dyfarnu Canŵio Prydain yn eich cynorthwyo wrth nodi meysydd penodol o ddatblygiad, gan eich helpu i gynllunio eich taith dysgu unigryw eich hunan. Yn seiliedig ar eich ymatebion byddwch hefyd yn cael eich cyfeirio at adnoddau priodol i gefnogi'ch dysgu a'ch datblygiad. Cliciwch yma i gyrchu'r offeryn hunan-ddadansoddi gan yr hyfforddwr.

Dylid defnyddio'r offeryn hunan-ddadansoddi gan yr hyfforddwr cyn eich sesiwn fentora ar-lein gyntaf (gweler isod) i helpu i lywio'r sgyrsiau cychwynnol hyn.

**Sesiynau Mentora Ar-lein**

Cefnogir eich datblygiad a'ch ffordd o feddwl yn ystod y rhaglen trwy sesiynau mentora ar-lein (oddeutu 1 awr yr un). Yn ystod y sesiynau hyn, bydd trafodaeth â Mentor Hyfforddwr Perfformiad yn cefnogi eich datblygiad cyfannol, trwy drafod ar y cyd, annog myfyrio, ysgogi mewnwelediadau a gweithredu.

Gallwch drefnu cymaint o'r sesiynau mentora hyn ag y dymunwch; mae dau wedi'u cynnwys yn eich ffi gofrestru a gellir trefnu sesiynau ychwanegol am gost ychwanegol. Mae angen i chi gymryd rhan mewn o leiaf dwy sesiwn mentor cyn yr asesiad.

**Digwyddiadau Cymuned Ddysgu**

Bydd calendr o ddigwyddiadau wyneb yn wyneb 2 ddiwrnod ar gael i hyfforddwyr ar y rhaglen. Mae'r digwyddiadau hyn yn darparu cyfleoedd i archwilio 'Hyfforddi Perfformiad' a sut mae hyn yn berthnasol i 'Pwy', 'Beth' a 'Sut' rydych chi'n hyfforddi.

Byddwch yn rhannu'r digwyddiadau hyn â hyfforddwyr medrus, profiadol a uchel eu cymhelliad eraill o ystod o ddisgyblaethau, gan gael cyfleoedd pwerus i archwilio, datblygu a mireinio'ch meddwl am eich arferion hyfforddi, eich gwybodaeth a'ch dealltwriaeth.

Dylai'r gefnogaeth a'r her y mae eich cyfoedion a'r Hwyluswyr yn eu cynnig i'r digwyddiadau hyn fwydo'ch chwilfrydedd; gan eich ysgogi i archwilio ac ymestyn


Hawlfraint BCAB

syniadau newydd yn eich hyfforddiant tra hefyd yn eich helpu i fireinio'ch arferion presennol.

Gallwch chi fynychu cymaint o'r digwyddiadau wyneb yn wyneb hyn ag y dymunwch; mae gofyniad lleiaf i fynychu o leiaf un cyn yr asesiad[1].

### Cefnogaeth Datblygwr Hyfforddwyr

Rôl Datblygwr Hyfforddwr yw cefnogi eich datblygiad ymarferol, ar y gwaith, i gynorthwyo yn natblygiad eich gwybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth penodol ac arbenigol.

Yn wahanol i gymwysterau Hyfforddi Corff Dyfarnu Canŵio Prydain eraill, mae gennych ymreolaeth dros y pynciau yr ydych am eu harchwilio, a mater i chi yw ceisio dysgu yn y meysydd sydd fwyaf perthnasol i'ch rôl hyfforddi. Byddai sesiynau Datblygwr Hyfforddwr fel arfer yn digwydd mewn sefyllfaoedd hyfforddi ymarferol go iawn, er mwyn eich galluogi i ddatblygu eich arfer trwy drafodaeth, adborth, arsylwi, myfyrio beirniadol, rhannu syniadau a herio cefnogol.

Gallwch drefnu cymaint o'r 'pwyntiau cyffwrdd' Datblygwr Hyfforddwyr hyn ag y dymunwch. Mae gofyniad sylfaenol i gymryd rhan mewn o leiaf dau cyn yr asesiad[2].

Byddwch yn ariannu'r rhyngweithiadau Datblygwr Hyfforddwyr hyn mewn cytundeb â nhw; nid ydynt wedi'u cynnwys yn y Ffi Gofrestru.

Mae manylion 'Datblygwyr Hyfforddwyr' ar gael trwy eich Cymdeithas Genedlaethol.

### Tasg Athroniaeth Hyfforddi

Trwy gydol y rhaglen Hyfforddwr Perfformiad cewch eich herio a'ch cefnogi i ddatblygu dealltwriaeth ddofn ymhellach o sut mae'ch gwerthoedd a'ch credoau yn

[1] Mae hyfforddwyr sydd wedi cwblhau Hyfforddiant Craidd Hyfforddwr Perfformiad Corff Dyfarnu Canŵio Prydain (cyn 2020) wedi'u heithrio o'r gofyniad sylfaenol hwn, er y gallant fod eisiau cyrchu'r cyfle dysgu o hyd.

[2] Ystyrir bod Hyfforddiant Penodol Disgyblaeth Hyfforddwr Perfformiad Corff Dyfarnu Canŵio Prydain (cyn 2020) yn cyfateb i un pwynt cyffwrdd. Gellir hefyd ystyried pwyntiau cyffwrdd eraill a gyrchwyd ar y llwybr Hyfforddwr Perfformiad blaenorol (e.e. cefnogaeth hyfforddi gan fentor), cysylltwch â'ch Cymdeithas Genedlaethol iddynt ddilysu'r rhain.


Hawlfraint BCAB

llunio ac yn ategu eich arfer hyfforddi. Bydd y pwnc hwn yn cael ei gynnwys mewn sesiynau gyda'ch Mentor a'ch Datblygwyr Hyfforddwyr, i'r digwyddiadau wyneb yn wyneb a byddwch yn cael deunyddiau cefnogi i'ch helpu chi i ddatblygu eich ffordd o feddwl yn y maes hwn.

**Sesiwn Mentora Cyn-asesu**

Dylid trefnu sesiwn ar-lein gyda'ch Mentor Hyfforddwr Perfformiad pan fyddwch chi'n teimlo'n barod i symud ymlaen i'r asesiad hyfforddi ymarferol (a chyn archebu). Bydd hyn yn eich helpu i wirio eich parodrwydd ar gyfer asesu a mireinio'ch paratoadau terfynol.

Yn ystod y sesiwn hon byddwch hefyd yn cyflwyno ac yn trafod eich athroniaeth hyfforddi. Mae hyn yn rhoi cyfle i chi fynegi eich ffordd o feddwl a rhannu enghreifftiau i arddangos sut mae'n dylanwadu ar eich arferion hyfforddi. Mae cysylltiadau cryf rhwng eich cyflwyniad a'ch asesiad hyfforddi ymarferol.

Bydd recordiad o'r sesiwn Mentora Cyn-asesu ac unrhyw ddeunyddiau ategol yn cael eu rhannu gyda'r asesydd sy'n gweithio gyda chi ar eich asesiad ymarferol i ddarparu cyd-destun a chefndir i sut a pham rydych chi'n mynd ati gyda'ch arfer hyfforddi fel rydych chi'n ei wneud.

Erbyn diwedd y sesiwn fentora hon, byddwch naill ai'n cael caniatâd i wneud trefniadau ar gyfer sefydlu eich asesiad ymarferol neu, os bydd angen datblygu ymhellach, cytunir ar gynllun gweithredu personol.

Mae un sesiwn mentora cyn-asesiad wedi'i chynnwys yn eich ffi Gofrestru. Os oes angen sesiynau ychwanegol gellir eu trefnu gyda'ch Cymdeithas Genedlaethol am gost ychwanegol.


Hawlfraint BCAB

# Asesu

### Rhagarweiniad

Er mwyn cyflawni eich cymhwyster Dyfarniad Hyfforddwr Perfformiad mae angen i chi gwblhau asesiad ymarferol yn llwyddiannus sy'n canolbwyntio ar eich sgiliau hyfforddi.

### Cofrestru i'r Asesiad

Cyn eich asesiad mae'n ofynnol i chi fod wedi cwblhau Cofrestru i'r Asesiad gan roi cymeradwyaeth i chi fynd ymlaen i asesiad. Mae hyn yn gofyn eich bod chi:

- Wedi mynychu o leiaf un digwyddiad cymuned ddysgu (gweler tudalen 10);
- Wedi cwblhau o leiaf dwy sesiwn fentora ar-lein (gweler tudalen 10);
- Wedi ymwneud ag o leiaf dau 'bwynt cyffwrdd' gyda Datblygwr Hyfforddwyr (gweler tudalen 11);
- â'r dystiolaeth ofynnol o'r sesiwn fentora cyn-asesiad, gan gynnwys;
  - â'r recordiad o'r sesiwn ac unrhyw ddeunyddiau ategol a ddefnyddir;
  - â chopi o adroddiad ac argymhelliad y mentor;
- â Statws Diweddariad Hyfforddwr Cymdeithas Genedlaethol ddilys, gan gynnwys:
  - Aelodaeth lawn o'r Gymdeithas Genedlaethol;
  - Hyfforddiant Cymorth Cyntaf cyfredol;
  - Hyfforddiant diogelu (fel sy'n ofynnol gan eich Cymdeithas Genedlaethol);
  - Tystiolaeth o Ddatblygiad Personol Parhaus (DPP).

Ar ôl cwblhau'r broses Gofrestru, byddwch yn gweithio gyda'ch Cymdeithas Genedlaethol i sefydlu'ch asesiad hyfforddi ymarferol.

Mae mwy o fanylion ar gael gan eich Cymdeithas Genedlaethol.


Hawlfraint BCAB

**Asesiad Hyfforddi Ymarferol**

Mae'n ofynnol i chi drefnu, cynllunio a darparu hyfforddiant o leiaf 3 awr ar gyfer o leiaf dau ddysgwr. Dylai'r dysgwyr fod yn nodweddiadol o'r bobl rydych chi'n eu hyfforddi fel arfer, ac yn addas ar gyfer hyfforddi yn yr amgylcheddau dyfarnu a nodwyd.

Dylai'r hyfforddiant o ansawdd 3 awr gael ei drefnu i gyflawni anghenion y dysgwyr; gallai fod trwy sesiynau ymarfer ar wahân (cysylltiedig), mwy nag un sesiwn llai, neu un sesiwn hir.

Yn ystod yr asesiad ymarferol mae gennych gyfrifoldeb dros ddiogelwch, mwynhad a dysgu athletwyr/dysgwyr. Rydych chi'n gyfrifol am gasglu gwybodaeth am anghenion athletwyr/dysgwr, yr amgylchedd ac unrhyw faterion sy'n ymwneud â diogelwch, a defnyddio'r wybodaeth hon i sicrhau bod cynnwys a chyflwyniad eich sesiwn yn diwallu anghenion a chymhellion yr athletwyr/dysgwyr.

Ar y cyfan, bydd eich Asesydd yn casglu tystiolaeth wrth arsylwi perfformiad. Ategir hyn trwy gwestiynu a thrafod cyn, rhwng ac ar ôl y sesiynau a arsylwyd.

Yn ystod yr asesiad mae'n ofynnol i chi ddangos bod gennych y sgiliau, y wybodaeth gefndir a'r ddealltwriaeth i ddefnyddio arferion hyfforddi soffistigedig i wella a gwneud y gorau o ddatblygiad a lles tymor hir cyfranogwyr a grwpiau o gyfranogwyr.

**Gwybodaeth bellach**

Mae'r 'Canllawiau Asesu Hyfforddwr Perfformiad' yn darparu gwybodaeth lawn am y safonau a manylion pellach ynglŷn â'r asesiad. Mae hwn ar gael i'w lawrlwytho o www.britishcanoeingawarding.org.uk.

**Ardystio**

Bydd cwblhau'r asesiad yn llwyddiannus yn golygu y byddwch yn cael eich cymeradwyo ar gyfer ennill y Dyfarniad Hyfforddwr Perfformiad. Bydd yr Asesydd yn cyflwyno'r gwaith papur i'w Ganolfan Gyflwyno'r Gymdeithas Genedlaethol i'w wirio. Yna caiff ei anfon ymlaen at Gorff Dyfarnu Corff Dyfarnu Canŵio Prydain i'w ardystio.

Os na fyddwch yn llwyddiannus yn yr asesiad gallwch gyflwyno mewn asesiad gwahanol pan fyddwch yn barod. Bydd eich asesydd yn eich cefnogi chi i ddeall y camau nesaf ac yn eich helpu i nodi meysydd i'w datblygu.

**Gorchwyl**

Mae Canŵio Prydain yn argymell mai'r Dyfarniad Hyfforddwr Perfformiad yw'r cymhwyster cywir ar gyfer hyfforddwyr sy'n gweithio yn y ddisgyblaeth/amgylchedd penodol heb oruchwyliaeth (diffinnir amgylcheddau yn Atodiad 2). Mae'r ddogfen 'Diffiniadau Amgylchedd a Chanllawiau Trefnu Corff Dyfarnu Canŵio Prydain ar gyfer Hyfforddwyr ac Arweinwyr' yn darparu cyngor ymhellach. Os ydych chi byth yn ansicr, cysylltwch â'ch Cymdeithas Genedlaethol.

Er y gall ymgeiswyr o dan 18 oed ddilyn rhai llwybrau disgyblaeth benodol, nodwch na ellir eu hystyried yn gyfrifol am arweinyddiaeth yn ôl y gyfraith nes eu bod yn 18 oed.

Rôl yr Hyfforddwr Perfformiad yw ysbrydoli, ysgogi a chefnogi unigolion i wella eu datblygiad tymor hir fel padlwyr. I wneud hyn bydd yn datblygu arferion hyfforddi unigol soffistigedig iawn, sydd wedi'u hategu gan ddealltwriaeth ddofn o berthnasau rhyngbersonol. Bydd eu dealltwriaeth yn cael ei ategu gan fewnwelediadau gwybodus i'r elfennau technegol a thactegol mewn disgyblaeth, gan alluogi datrysiadau dysgwyr unigol. Fel hyfforddwr angerddol, uchel ei berfformiad, bydd hunanymwybyddiaeth, hunan-fyfyrio a dadansoddi yn sail i'w ddatblygiad personol. Bydd chwilfrydedd yn gyrru'r broses hon, gan ysbrydoli a datblygu dysgu a gwybodaeth gydol oes trwy eu hyfforddiant.


Hawlfraint BCAB

## Polisïau Ategol

**Apeliadau:** Os ydych yn credu bod penderfyniad asesu yn anghywir, mae gennych hawl i apelio drwy'ch Canolfan Gyflwyno'r Gymdeithas Genedlaethol. Dylech gyflwyno eich ymholiadau, neu gofrestru eich bwriad i gyflwyno apêl, o fewn 30 niwrnod ar ôl penderfyniad yr asesiad. Gellir ymestyn y cyfnod hwn mewn amgylchiadau eithriadol yn unig.

**Cwynion:** Os hoffech wneud cwyn am y ffordd y mae staff y cwrs wedi'ch trin, neu am y ffordd y cafodd y cwrs ei gynnal, cysylltwch â Chanolfan Gyflwyno'r Gymdeithas Genedlaethol berthnasol.

**Cyfleoedd Cyfartal:** Rydym yn ymrwymedig i sicrhau tegwch a mynediad i asesiad, a hynny i bob ymgeisydd waeth beth yw ei hil, tarddiad ethnig neu genedlaethol, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, anabledd, oed, statws priodasol, dosbarth cymdeithasol, credoau a chysylltiadau gwleidyddol neu grefyddol neu nodweddion personol neu broffesiynol eraill nad ydynt yn cael effaith ar asesiad, a hynny wrth ddiogelu uniondeb y cymwysterau ar yr un pryd. Mae'r 'Polisi Cyfleoedd Cyfartal ar gyfer Tegwch a Mynediad i Asesiad' ar gael gan Ganolfannau Cyflwyno'r Gymdeithas Genedlaethol.

**Problemau'n Codi yn ystod yr Asesiad:** Gallwch wneud cais am ystyriaeth arbennig os ydych yn colli sesiwn asesu, yn cyflwyno gwaith ysgrifenedig yn hwyr, neu'n perfformio'n wael yn sgil afiechyd, anaf neu anhwylder dros dro a ddioddefir adeg yr asesiad. Am ragor o fanylion, gweler 'Polisi ac Arferion Ystyriaethau Arbennig' sydd ar gael gan Ganolfannau Cyflwyno'r Gymdeithas Genedlaethol.

**Addasiadau Rhesymol:** Mae Polisi Addasiadau Rhesymol Corff Dyfarnu Canŵio Prydain yn disgrifio sut y gall asesiadau gael eu haddasu ar gyfer dysgwyr ag anabledd ac anawsterau eraill. Os ydych yn debygol o gael anhawster o ran y dulliau asesu, rhaid i chi drafod unrhyw bryderon â'ch Canolfan Gyflwyno. Bydd y Ganolfan Gyflwyno yn sicrhau eich bod yn cael eich asesu mewn modd addas yn unol â'r polisi. Bydd y Ganolfan Gyflwyno'n gyfarwydd â'r nodiadau canllaw hyn a gall eich helpu i'w deall os oes angen.

**Camymddygiad:** Ni oddefir camarfer. Rhaid adrodd am unrhyw amheuon o gamarfer gan ymgeiswyr, darparwyr neu unrhyw un arall sydd ynghlwm wrth ddarparu cymwysterau Corff Dyfarnu Canŵio Prydain i Ganolfan Gyflwyno’r Gymdeithas Genedlaethol berthnasol. Bydd unrhyw un sy’n methu ag adrodd am amheuon o gamymddygiad yn cael ei archwilio a gall fod yn destun camau disgyblu. Yn ogystal, bydd Corff Dyfarnu Canŵio Prydain yn cynnal ymchwiliad llawn i bob achos o gamarfer honedig neu yr amheuir pryd bynnag y bydd ganddynt reswm i amau uniondeb y broses asesu a/neu ddilysrwydd ceisiadau am ardystiad a bydd yn cymryd y camau sy’n briodol o ran yr ymgeiswyr a/neu'r canolfannau dan sylw, i gynnal uniondeb y cymwysterau perthnasol.

## Manylion Cyswllt

Gallwch gael rhagor o fanylion ynglŷn â chyrsiau, aelodaeth a chofrestru yn uniongyrchol gan Ganolfannau Cyflwyno'r Gymdeithas Genedlaethol:

**Paddles Up Training**
Adbolton Lane, Holme Pierrepont
Nottingham NG12 2LU
Ffôn: 0300 0119 500
coaching@paddlesuptraining.com
www.paddlesuptraining.com

**Paddle Cymru**
Canolfan Dŵr Gwyn Genedlaethol
Frongoch, y Bala
Gwynedd LL23 7NU
Ffôn: 01678 521199
admin@paddlecymru.org.uk
www.paddlecymru.org.uk

**Paddle Scotland**
Grandtully Station Park
Grandtully
Pitlochry PH9 0PL
Ffôn: 01887 292040
coaching@paddlescotland.org.uk
www.paddlescotland.org.uk

**Paddle Northern Ireland**
Belfast Boat Club
12 Lockview Road
Belfast BT9 5FJ
Ffôn: 07526 691171
admin@paddleni.org.uk
www.paddleni.org.uk

**Gorff Dyfarnu Canŵio Prydain**
Canolfan Chwaraeon Dŵr Genedlaethol
Adbolton Lane, Holme Pierrepont
Nottingham NG12 2LU
Ffôn: 0300 0119 500
enquiries@britishcanoeingawarding.org.uk
www.britishcanoeingawarding.org.uk


Hawlfraint BCAB

# Atodiad 1: Cymwysterau Hyfforddi Hanfodol ac APL

## Cymwysterau Hyfforddi Hanfodol Perthnasol

I gofrestru ar gyfer y rhaglen Dyfarniad Hyfforddwr Perfformiad, mae angen fod gan yr hyfforddwyr gymhwyster hyfforddi disgyblaeth benodol yn yr un ddisgyblaeth ac amgylchedd y mae'n am ei ddilyn. Canŵio Prydain (UKCC) Lefel 2, neu BCU Lefel 3 o leiaf.

Mae'r opsiynau canlynol yn addas:

- Y Dyfarniad Hyfforddwr cyfatebol;
- Yr Ardystiad Dŵr Cymedrol cyfatebol neu'r Hyfforddwr Lefel 3 BCU;
- Yr Ardystiad Dŵr Uwch cyfatebol neu'r Hyfforddwr Lefel 5 BCU.

## Dysgu Blaenorol wedi'i Achredu

Os yw'ch ymarfer hyfforddi wedi'i wirio trwy ddulliau amgen, gallwch wneud cais i'ch Cymdeithas Genedlaethol ar gyfer Achredu Dysgu Blaenorol (APL). Bydd y gwasanaeth APL yn ystyried dyfarniadau proffesiynol eraill a gydnabyddir yn genedlaethol a chynlluniau hyfforddi ac asesu eraill, heblaw ei gynlluniau ei hun, lle gellir eu hadnabod fel rhai o safon gyfartal neu uwch. Mae rhagor o fanylion ar gael ar wefannau Canolfannau Cyflwyno'r Gymdeithas Genedlaethol.

## Atodiad 2: Amgylcheddau Gweithredu Cymwysterau

| Enw'r Dyfarniad | Terfyn Uchaf yr Amgylchedd Gweithredol[3] |
|---|---|
| Hyfforddwr Perfformiad Canŵ (DC) | Dŵr Cysgodol |
| Hyfforddwr Perfformiad Caiac (DC) | Dŵr Cysgodol |
| Hyfforddwr Perfformiad Dull Rhydd | Unrhyw leoliad dull rhydd addas - parcio a chwarae (nid teithio). |
| Hyfforddwr Perfformiad Canŵ Dŵr Agored | Dŵr mewndirol cymedrol |
| Hyfforddwr Perfformiad Canŵ Dŵr Agored (Dŵr Uwch) | Dŵr mewndirol uwch |
| Hyfforddwr Perfformiad Polo | Pyllau nofio a safleoedd dŵr cysgodol |
| Hyfforddwr Perfformiad Rasio (Dŵr Cysgodol) | Dŵr Cysgodol |
| Hyfforddwr Perfformiad Rasio (Dŵr Cymedrol) | Dŵr mewndirol cymedrol |
| Hyfforddwr Perfformiad Caiac Môr | Dŵr cymedrol (Môr) |
| Hyfforddwr Perfformiad Caiac Môr (Dŵr Uwch) | Dŵr uwch (Môr) |
| Hyfforddwr Perfformiad Slalom | Lleoliadau cystadlu/hyfforddi slalom dŵr cymedrol |

[3] Am ddiffiniadau, gweler ‘Canllawiau Amgylcheddol Corff Dyfarnu Canŵio Prydain ar gyfer Hyfforddwyr, ac Arweinwyr’.


Hawlfraint BCAB

| | |
|---|---|
| Hyfforddwr Perfformiad Padlfwrdd Sefyll (Dŵr Agored) | Dŵr mewndirol cymedrol |
| Hyfforddwr Perfformiad Padlfwrdd Sefyll (Dŵr Cysgodol) | Dŵr Cysgodol |
| Perfformiad Padlfwrdd Sefyll (Dŵr Gwyn) | Dŵr gwyn cymedrol (ddim yn ymwneud â saethu coredau) |
| Perfformiad Padlfwrdd Sefyll (Rasio) | Dŵr mewndirol cymedrol |
| Hyfforddwr Perfformiad Caiac Beiston | Beistion cymedrol |
| Hyfforddwr Perfformiad Caiac Beiston (Dŵr Uwch) | Beistion uwch |
| Hyfforddwr Perfformiad Canŵ Dŵr Gwyn | Dŵr gwyn cymedrol |
| Hyfforddwr Perfformiad Canŵ Dŵr Gwyn (Dŵr Uwch) | Dŵr gwyn uwch, dim mwy na gradd 3(4) |
| Hyfforddwr Perfformiad Caiac Dŵr Gwyn | Dŵr gwyn cymedrol |
| Hyfforddwr Perfformiad Caiac Dŵr Gwyn (Dŵr Uwch) | Dŵr gwyn uwch, dim mwy na gradd 4(5) |
| Hyfforddwr Perfformiad Rasio Dŵr Gwyllt | Dŵr gwyn cymedrol |


Hawlfraint BCAB